# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Mae cynadleddau'n caniatáu rhannu gwybodaeth, trafod ymchwil ddiweddar a rhwydweithio. Fe fydd cyflwyno mewn cynhadledd yn rhoi mwy o sylw i'ch ymchwil ac yn rhoi cyfle ichi gael adborth.

## Ambell air i gall ar gyfer digwyddiadau

Gallwch chi ddefnyddio hashnod y gynhadledd ar Twitter i greu cysylltiad ag eraill yn y digwyddiad.

Ydych chi'n gwneud cyflwyniad? - Cadwch eich cynulleidfa mewn cof

Os ydych chi'n defnyddio PowerPoint, yna defnyddiwch llawer o bethau gweledol – defnyddiwch cyn lleied o eiriau â phosibl

Cadwch bethau'n syml! Esboniwch unrhyw jargon ac ailadrodd cysyniadau allweddol

Tybed allech chi wneud cyflwyniad mewn digwyddiadau anacademaidd? e.e. Gŵyl y Dyn Gwyrdd

Oes gennych chi boster? Fe ddylai sefyll ar ei ben ei hun fel cyflwyniad clir a bachog o'ch gwaith

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

## Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru